ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG43908

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Fframwaith Cymraeg

Fframwaith anstatudol Cwricwlwm i Gymru i gefnogi dysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg.

Dyddiad cyhoeddi: 14 Chwefror 2022
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Mai 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg

Rydym yn ymgynghori ar fframwaith anstatudol drafft sy'n nodi profiadau, gwybodaeth a sgiliau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc mewn ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg er mwyn gwneud cynnydd yn y Gymraeg.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi ffurflen ar-lein neu drwy e-bostio/postio i'r cyfeiriadau isod i gyrraedd erbyn **13 Mai 2022** fan bellaf.

Bydd grwpiau ffocws hefyd yn cael eu cynnal fel rhan o'r ymgynghoriad. Os hoffech fod yn rhan o grŵp ffocws, gadewch ini wybod trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Bwriedir i'r fframwaith hwn gefnogi ysgolion gyda chynllunio, llunio a gweithredu eu cwricwlwm. Dylid ei ystyried yng nghyd-destun canllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru, ynghyd â fersiwn hawdd ei ddarllen a chanllaw ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd, ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau

Manylion cyswllt

Uned gwireddu'r cwricwlwm
Isadran cwricwlwm ac asesu
Y gyfarwyddiaeth addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

ebost: CwricwlwmiGymru@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperlink

@WG_Education

Facebook/EducationWales

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

Cynnwys

Cyflwyniad i'r fframwaith	2
Cymwyseddau – nodau dysgu iaith	2
Gwrando	4
Siarad	9
Darllen	19
Ysgrifennu	26
Llenyddiaeth a chreadigrwydd	36
Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd	41

Fframwaith drafft y Gymraeg

Rydym yn gofyn am adborth ar y canllawiau drafft canlynol.

Cyflwyniad i'r fframwaith

Mae'r fframwaith canlynol yn nodi cymwyseddau, profiadau, gwybodaeth a sgiliau sy'n tanategu'r cynnydd a fynegir yn y Cwricwlwm i Gymru trwy'r disgrifiadau dysgu ar gyfer Cymraeg mewn ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg.

Ar hyn o bryd nid oes un diffiniad cyfreithiol o ysgolion cyfrwng Saesneg nac ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn deddfwriaeth. Pan fyddwn yn cyfeirio at ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg yn y ddogfen hon, rydym yn golygu'r ysgolion a'r lleoliadau hynny sy'n addysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Dim ond fel canllaw y bwriedir hyn a chredwn y bydd ysgolion a lleoliadau eraill yn gallu adnabod yn gywir a ydynt o fewn y diffiniad hwnnw.

Mae'r fframwaith yn cynnwys pob llinyn o gynnydd o'r disgrifiadau dysgu.
Amlygir y cymwyseddau mwyaf perthnasol o dan bob llinyn. Gallai cymwyseddau eraill hefyd fod yn berthnasol yn dibynnu ar y gweithgareddau penodol a wnaethpwyd gan y dysgwyr.

O dan y cymwyseddau, mae'r fframwaith yn nodi profiadau, gwybodaeth a sgiliau y mae dysgwyr eu angen er mwyn datblygu yn y ffyrdd a fynegir yn y disgrifiadau dysgu. Nid yw'n cynnwys yr holl brofiadau, gwybodaeth a sgiliau posibl.

.

Cymwyseddau – nodau dysgu iaith

Mae chwe math o gymhwysedd sy'n rhan o ddysgu ail iaith:
1. Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith.
2. Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.
3. Cymhwysedd rhyngweithredol (transactional competence): y gallu i wneud pethau trwy'r iaith.
4. Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged.
5. Cymhwysedd symbolaidd: y gallu i werthfawrogi'r iaith darged a datblygu hunaniaeth fel defnyddiwr yr iaith.
6. Cymhwysedd trawsieithol: y gallu i ddefnyddio amrediad o adnoddau ieithyddol mewn cymdeithas amlieithog.

Wrth ddysgu iaith yn llwyddiannus, datblygir y cymwyseddau hyn gyda'i gilydd gan amlaf ac maen nhw'n cefnogi ac yn ategu ei gilydd. Oherwydd hyn, mae llawer o ymchwilwyr yn argymell dull 'cyfannol' o addysgu iaith.

Cewch ddarllen mwy yn Trosolwg o ymagweddau at gaffael ail iaith ac arferion addysgol.

Mae'r fframwaith hwn yn cyflwyno sgiliau o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer deall iaith ac ar gyfer mynegi ar wahân, yn dechrau gyda gwrando a siarad sy'n gallu cynnig sylfaen gadarn ar gyfer datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Fodd bynnag, dylai dysgu ac addysgu adlewyrchu'r canlynol o'r cyflwyniad i Faes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:

“Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy’n nodi’r hyn sy’n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â’i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy’n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae’r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau’i gilydd. Gyda’i gilydd maen nhw’n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.”

Gwrando

Mae disgrifiadau dysgu ar gyfer y datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch' yn cyfeirio at gynnydd mewn sgiliau gwrando.

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer gwrando	Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth a chyfarwyddiadau syml am bynciau cyfarwydd ac arferion.	Rwy'n gallu gwrando ar, deall ac yna adalw'n ddiweddarach yr hyn rwyf wedi'i glywed. Rwy'n gallu deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau. Rwy'n gallu defnyddio ciwiau amrywiol i ragfynegi'r ystyr gyffredinol mewn amrywiaeth o gyd-destunau llafar. Rwy'n gallu gwrando, deall ac ymateb i ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau aml-gam mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd.	Rwy'n gallu deall ystyr gyffredinol yr hyn rwy'n ei glywed, ac rwy'n gallu cyfathrebu hyn yn fy newis iaith. Rwy'n gallu gwrando ar a deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, ei hadalw a chrynhoi'r prif bwyntiau yn fy newis iaith. Rwy'n gallu defnyddio ciwiau amrywiol i ragfynegi'r ystyr gyffredinol mewn amrywiaeth o gyd-destunau llafar cyfarwydd ac anghyfarwydd.	Rwy'n gallu gwrando a defnyddio ciwiau i ddeall ystyr gyffredinol yr hyn rwyf wedi'i glywed gan grynhoi yn fy newis iaith.	Rwy'n gallu deall a gwerthuso'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen mewn gwahanol gyd-destunau ar draws amrywiaeth eang o iaith.
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith. Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				

	Cymhwysedd rhyngweithredol (transactional competence): y gallu i wneud pethau trwy'r iaith. Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged. Cymhwysedd trawsieithol: y gallu i ddefnyddio amrediad o adnoddau ieithyddol mewn cymdeithas amlieithog.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: clywed Cymraeg yn cael ei defnyddio yn rhan o drefn ddyddiol y dysgwr. Gwybodaeth: iaith sy'n gysylltiedig â phynciau a threfn ddyddiol. Sgiliau: dilyn cyfarwyddiadau cyfarwydd.	Profiadau: gwrando ar Gymraeg ar gyfer amrywiaeth o wahanol feysydd pwnc. Gwybodaeth: Geiriau a phatrymau cwestiynau Cymraeg Sgiliau: adalw gwybodaeth; adnabod ciwiau a allai helpu i ddeall neges gwybodaeth sy'n cael ei chyfleu;	Profiadau: cyfleoedd i wrando/gwylio mewn cyd-destunau dilys ac mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd lle gellir deall yr ystyr cyffredinol hyd yn oed os yw rhai geiriau a phatrymau yn anghyfarwydd. Gwybodaeth: bydd y dysgwr yn gallu dewis defnyddio'r Gymraeg fwyfwy i ymateb a dibynnu llai ar sgaffald a/neu ei iaith gartref. Sgiliau: cyfryngu; trawsieithu; crynhoi	Profiadau: gwrando mewn amrywiaeth o gyd-destunau dilys Sgiliau: cyfryngu; trawsieithu; adnabod ac ymateb i giwiau	Gwybodaeth: ystod eang o iaith sy'n caniatáu i'r dysgwr ddewis defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth – mewn addysg, yn y gweithle, ac yn y gymuned. Sgiliau: gwerthuso dibynadwyedd yr hyn y mae eraill yn ei ddweud – a yw'n ffaith neu'n farn? A oes tystiolaeth? [Arfer addysgeg yw trawsieithu sy'n golygu symud rhwng dwy iaith ar gyfer mewnbwn ac allbwn yn yr un gweithgaredd. Mae'r dysgwr yn derbyn gwybodaeth mewn

					un iaith ac yn gweithio gyda'r wybodaeth honno mewn iaith arall.]

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer gwrando	Rwy'n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol.	Rwy'n gallu gwrando ar eraill, a deall y gallan nhw fod â safbwynt wahanol i mi.	Rwy'n gallu gwrando gydag empathi, gan gydnabod safbwyntiau amrywiol pobl eraill.	Rwy'n gallu gwrando gydag empathi, a myfyrio ar bersbectif pobl eraill er mwyn llywio fy ffordd i o feddwl.	Rwy'n gallu gwrando gydag empathi, gan barchu safbwyntiau gwahanol bobl ac rwy'n gallu gwerthuso'r safbwyntiau hyn yn feirniadol er mwyn cyrraedd fy nghasgliadau ystyriol fy hun.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: gwrando ar eraill yn defnyddio Cymraeg Sgiliau: bydd dysgwyr iau yn datblygu'r gallu i wrando'n astud mewn cyfnod datblygu penodol; bydd dysgwyr hŷn	Profiadau: rhyngweithio ag eraill a allai fod â safbwyntiau a barnau gwahanol	Profiadau: bydd ystod o brofiadau yn cyfrannu at ddatblygu empathi ond bydd agwedd a chyfnod datblygu'r dysgwr hefyd yn effeithio ar gynnydd.	Profiadau: cyfleoedd dilys i ymwneud â phobl gyda safbwyntiau gwahanol. Sgiliau: dod i benderfyniad gwybodus ar ôl	Sgiliau: dangos parchu at eraill beth bynnag fo'u safbwyntiau; gwerthuso'n feirniadol yr hyn sydd gan eraill i'w ddweud

	sy'n newydd i'r Gymraeg yn datblygu eu sgiliau gwrando yn y Gymraeg dros amser		Sgiliau: adnabod safbwyntiau a theimladau pobl eraill	ystyried safbwyntiau pobl eraill	

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer gwrando			Rwy'n gallu gwrando gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n effeithio ar ystyr.	Rwy'n gallu gwrando i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n siapio brawddegau a thestunau cyflawn.	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o adeiladwaith geiriau, a gramadeg gan gynnwys cystrawen, i gefnogi fy nealltwriaeth o'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen.
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau			Gwybodaeth: wrth i ddysgwyr ddeall sut mae gwahanol rannau o iaith yn gweithio yn y Gymraeg, byddant yn gallu deall mwy o'r hyn y maen nhw'n ei glywed, er enghraifft, berfau cryno	Profiadau: clywed modelau iaith da; dysgu yn ei gyd-destun sut mae gramadeg ac atalnodi'n gweithio.	Sgiliau: bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r hyn y maen nhw'n ei wybod am ramadeg i ddeall yr hyn y maen nhw'n ei glywed yn ogystal â defnyddio'r iaith a glywant wedi'i modelu i gyfoethogi eu defnydd iaith eu hunain.

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer gwrando	Rwy'n gallu arbrofi gyda geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa ac ynganiad trwy wrando, ac rwy'n gallu defnyddio'r geiriau newydd hyn.	Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa ac ynganiad trwy wrando, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau.	Rwy'n gallu gwrando er mwyn datblygu fy ngeirfa, ynganiad a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth i mi gyfathrebu ar draws ystod o gyd-destunau.	Rwy'n gallu gwrando er mwyn cadarnhau a datblygu fy ngeirfa a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain yn gywir wrth i mi gyfathrebu mewn ystod eang o gyd-destunau.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: defnyddio geiriau Cymraeg y maen nhw'n eu clywed o'u cwmpas yn yr ysgol ac yn y gymuned	Profiadau: amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith gyda modelau iaith da	Sgiliau: trosglwyddo geirfa ac ymadroddion i gyd-destunau newydd. Gwybodaeth: mae angen i ddysgwyr ddeall yr iaith cyn y gallan nhw ei defnyddio'n effeithiol, er enghraifft, yw'r hyn maen nhw'n gwrando arno yn ffurfiol neu'n anffurfiol? A yw gair a glywant yn cael ei ddefnyddio fel arfer mewn rhan benodol o Gymru? Er enghraifft tad-cu/taid.	Sgiliau: wrth i ddysgwyr ddod ar draws iaith fwy cymhleth mewn amrywiaeth ehangach o gyd-destunau, gallan nhw gyfoethogi eu mynegiant eu hunain gan ddefnyddio'r iaith y maen nhw'n clywed pobl eraill yn ei defnyddio	Profiadau: cyfleoedd i atgyfnerthu dysgu iaith cynharach tra'n parhau i ddatblygu a defnyddio geirfa a phatrymau iaith mwy soffistigedig

Siarad

Mae disgrifiadau dysgu ar gyfer y datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu' yn cyfeirio at gynnydd mewn sgiliau siarad.

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Disgrifiad dysgu ar gyfer siarad	Rwy'n gallu cynhyrchu nifer o seiniau llafar yn gywir. Rwy'n gallu dewis siarad gyda fy nghyfoedion yn Gymraeg.	Rwy'n gallu siarad gyda mynegiant ac ystumiau er mwyn cyfathrebu fy syniadau.	Rwy'n gallu defnyddio ac addasu iaith gyfarwydd, gan amrywio geirfa a naws yn ôl y gynulleidfa.	Rwy'n gallu dewis ac addasu'r iaith briodol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion, gan gyfleu ystyr yn effeithiol i'r gynulleidfa.	Rwy'n gallu argyhoeddi wrth gyfleu ystyr mewn ystod o gyd-destunau gan ennyn diddordeb llawn y gynulleidfa.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. Cymhwysedd rhyngweithredol (transactional competence): y gallu i wneud pethau trwy'r iaith. Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged. .				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: amgylchedd iaith cyfoethog lle mae dysgwyr yn clywed synau llafar cywir yn y	Profiadau: cyfleoedd dilys i gyfleu syniadau.	Profiadau: cyfleoedd dilys i ddefnyddio'r Gymraeg gyda gwahanol bobl mewn	Profiadau: cyfleoedd dilys i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod o wahanol bobl mewn	Profiadau: cyfleoedd dilys i ymwneud ag ystod o wahanol bobl mewn gwahanol gyd-destunau wrth

	Gymraeg ac yn cael cyfleoedd i ymarfer eu hunain ac yn cael eu hannog a'u canmol pan fyddant yn dewis defnyddio'r Gymraeg. Gwybodaeth: synau llafar sy'n wahanol yn y Gymraeg i'r ieithoedd eraill y mae'r dysgwr yn eu gwybod.	Gwybodaeth: patrymau iaith a geirfa i gyfleu syniadau.	cyd-destunau gwahanol. Gwybodaeth: sut mae iaith a naws yn newid yn ôl y gynulleidfa. Sgiliau: trosglwyddo patrymau i gyd-destunau newydd.	gwahanol gyd-destunau. Gwybodaeth: gwahanol fathau o iaith, er enghraifft, perswadiol, disgrifiadol, addysgiadol ac ati. Sgiliau: dewis iaith addas i gyfleu ystyr yn effeithiol.	ddefnyddio'r Cymraeg. Sgiliau: cyfleu ystyr gydag hyfedredd yn y Gymraeg; ennyn diddordeb cynulleidfa.

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Disgrifiad dysgu ar gyfer siarad	Rwy'n gallu cyfathrebu ystyr trwy iaith lafar ac ystum.	Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol amrywiol. Rwy'n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol.	Rwy'n gallu addasu a thrin iaith a gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch geirfa a gramadeg i ddyfnhau fy sgiliau cyfathrebu.
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith.				

	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. Cymhwysedd rhyngweithredol (transactional competence): y gallu i wneud pethau trwy'r iaith.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Sgiliau: cyfathrebu gan ddefnyddio'r Gymraeg maen nhw'n ei gwybod wedi'i chefnogi gan ystumiau priodol.	Profiadau: cyfleoedd i ddysgwyr siarad am bethau sy'n ystyrlon iddynt. Gwybodaeth: geirfa a phatrymau iaith sy'n caniatáu i'r dysgwr gyfathrebu go iawn, gan gynnwys siarad am yr hyn a wnaethant a'r hyn maen nhw'n mynd i'w wneud yfory/ ddoe/ yr wythnos ddiwethaf/ yn ystod gwyliau'r ysgol ac yn y blaen. Sgiliau: cyfathrebu gan ddefnyddio geirfa a phatrymau cyfarwydd - gellir defnyddio sgaffald pan gyflwynir patrymau newydd ond bydd dibyniaeth dysgwyr	Profiadau: cyfleoedd i arbrofi gydag iaith mewn gwahanol gyd-destunau. Gwybodaeth: defnyddio ymadroddion a phatrymau naturiol yn hytrach na chyfieithiad o iaith gartref y dysgwr, er enghraifft, 'Faint o'r gloch?' yn hytrach na 'Beth yw'r amser?' Bydd defnyddio tafodiaith rhanbarthol briodol ac osgoi geirfa neu ymadroddion sy'n hen ffasiwn yn helpu dysgwyr sy'n dewis defnyddio eu Cymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Sgiliau: defnyddio'r hyn y maen nhw wedi'i glywed neu ei ddarllen a newid agweddau i fynegi eu hunain.	Profiadau: mae ar ddysgwyr angen digonedd o gyswllt â'r Gymraeg, a hynny'n iaith o ansawdd da, cyn y gallan nhw ddechrau gwneud dewisiadau ynglŷn â'r ffordd orau o fynegi eu hunain mewn amgylchiadau gwahanol. Dylen nhw gael cyfleoedd parhaus i gyfoethogi eu geirfa mewn gwahanol gyd-destunau. Gwybodaeth: geirfa a phatrymau gan gynnwys iaith idiomatig megis: fel arfer, erbyn hyn, cyn bo hir. Sgiliau: defnyddio geirfa a phatrymau i fynegi eu hunain mewn ffordd sy'n swnio'n naturiol (yn hytrach na cheisio cyfieithu gair am air o'u hiaith gartref).	Profiadau: cyfleoedd dilys mewn amgylchedd lle mae'r dysgwr yn teimlo'n hyderus ac yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r iaith y maen nhw'n ei gwybod.

		ar sgaffaldiau yn cael ei lleihau dros amser.			

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Disgrifiad dysgu ar gyfer siarad		Rwy'n gallu edrych dros fy ngwaith ac rwy'n dechrau defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau cyfarwydd i wella fy ngwaith llafar.	Rwy'n gallu myfyrio ar safon fy mynegiant a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder yn fy nghyfathrebu llafar. Rwy'n gallu egluro yn fy newis iaith ble a pham rwyf wedi gwneud unrhyw newidiadau neu gywiriadau.	Rwy'n gallu myfyrio ar fy nefnydd o strategaethau i wella ansawdd, cywirdeb ac effaith fy nghyfathrebu llafar.	Rwy'n gallu myfyrio'n feirniadol ar fy nefnydd o iaith ac yn gallu ystyried yn wrthrychol effaith fy nghyfathrebu llafar.
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith. Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau		Profiadau: cyfleoedd i wylio neu i wrando ar recordiadau o'u hunain yn siarad Cymraeg, y gellir eu dilyn gan gyfleoedd ystyrlon i adolygu a gwella eu cyfathrebu.	Profiadau: cyfleoedd i wylio neu i wrando ar recordiadau o'u hunain yn siarad Cymraeg, y gellir eu dilyn gan gyfleoedd ystyrlon, er enghraifft, cwblhau gweithgareddau/tasgau tebyg fel y gall y dysgwr wneud y newidiadau y	Sgiliau: fwyfwy bydd dysgwyr yn dewis y strategaethau i fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a'i wella (yn hytrach na bod hwn yn weithgaredd a arweinir gan athrawon).	Sgiliau: bydd y rhai sy'n dysgu yn myfyrio fwyfwy ar eu defnydd o iaith ganol sgwrs/gweithgaredd, er enghraifft, gan ystyried yn feirniadol pam yr ymatebodd rhywun i'r hyn a ddywedasant mewn ffordd benodol a chymryd camau priodol megis drwy

		Gwybodaeth: sut i ddefnyddio strategaethau ac arfau i adolygu a gwella eu sgiliau siarad h.y. asesu ar gyfer dysgu (AfL). Sgiliau: gallu adnabod eu cryfderau a'u meysydd i wella.	maen nhw'n teimlo sydd eu hangen i wella eu cyfathrebu. Gwybodaeth: beth yw'n dda o ran eu cyfathrebu Cymraeg, gan gynnwys mewn tasgau/gweithgareddau penodol; cymhwyso strategaethau ac arfau i adolygu a gwella eu sgiliau siarad h.y. asesu ar gyfer dysgu (AfL). Sgiliau: gallu egluro pam eu bod wedi gwneud newidiadau – dros amser bydd dysgwyr yn dibynnu llai ar eu hiaith gartref / sgaffald i wneud hyn yn Gymraeg.		ymddiheuro neu aralleirio'r hyn a ddywedasant.

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Disgrifiad dysgu ar gyfer siarad	Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau.	Rwy'n gallu ymgymryd ag ystod o rolau a rheoli fy nghyfraniad yn briodol. Rwy'n gallu newid y modd rwy'n cyfathrebu, yn ôl lle'r wyf i a chyda phwy. Rwy'n gallu defnyddio iaith lafar at wahanol ddibenion. Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau a chyfnewid syniadau a gwybodaeth.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan ymofyn eglurhad, strwythuro dadleuon, crynhoi ac esbonio'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan grynhoi a gwerthuso'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld, strwythuro dadleuon a herio gyda hyder a sensitifrwydd yr hyn y mae eraill yn ei ddweud.
Cymwysedd au	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. Cymhwysedd rhyngweithredol (transactional competence): y gallu i wneud pethau trwy'r iaith. Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Gwybodaeth: cwestiynau bob dydd yn ymwneud â'u dysgu a'r iaith sydd ei hangen i ymateb.	Profiadau: cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg at ddibenion gwahanol, gan gynnwys mewn cyd-destunau dilys	Sgiliau: ymateb yn briodol i eraill.	Profiadau: cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio go iawn yn y Gymraeg.	Profiadau: cyfleoedd dilys mewn amgylchedd lle mae'r dysgwr yn teimlo'n hyderus ac yn cael ei gefnogi i herio'r hyn y mae eraill yn ei ddweud.

	Sgiliau: gofyn ac ateb cwestiynau priodol.	ac ar gyfer cyfathrebu go iawn. Sgiliau: cymryd rolau megis arweinydd mewn tasg neu wrth chwarae rôl. Gwybodaeth: sut y gall iaith amrywio yn ôl ble maen nhw a phwy sy gyda nhw – gall hyn gynnwys uchelder a thawelwch eu llais yn ogystal â ffurfioldeb iaith a dewis geiriau.		Gwybodaeth: iaith y gellir ei defnyddio i geisio eglurder, i strwythuro dadleuon, i grynhoi ac i esbonio.	Sgiliau: crynhoi a gwerthuso, strwythuro dadleuon a herio'r hyn y mae eraill yn ei ddweud gyda sensitifrwydd.

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Disgrifiad dysgu ar gyfer siarad	Rwy'n dechrau mynegi fy nheimladau.	Rwy'n gallu rhannu syniadau a mynegi barn a theimladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol. Rwy'n gallu disgrifio digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa.	Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill, yn siarad am fy meddyliau, teimladau a barn, gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu rhannu fy meddyliau, fy nheimladau a fy safbwyntiau ag eraill, gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu cyfleu fy meddyliau, fy nheimladau a fy safbwyntiau mewn cyd-destunau heriol a dadleuol, gan ddangos empathi a pharch.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				

	Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: cyfleoedd i fynegi teimladau go iawn. Gwybodaeth: geirfa a phatrymau sy'n gysylltiedig â mynegi teimladau. Sgiliau: bydd cam datblygu plant iau yn effeithio ar eu gallu i fynegi teimladau.	Experiences: cyfleoedd go iawn i rannu syniadau a barn a theimladau go iawn. Cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y maen nhw'n ei gwybod yn ogystal ag ymestyn eu geirfa'n barhaus. Gwybodaeth: dros amser bydd dysgwyr yn dibynnu llai ar sgaffald wrth iddynt gyfleu eu syniadau, eu barn a'u teimladau ac wrth ddisgrifio digwyddiadau.	Profiadau: cyfleoedd i ryngweithio go iawn trwy'r Gymraeg. Gwybodaeth: deall sut mae pobl yn dangos empethi a pharch. Sgiliau: bydd y gallu i ddangos empathi yn cael ei effeithio gan cam datblygu'r dysgwr.	Profiadau: cyfleoedd i rannu meddyliau, teimladau a barnau go iawn. Sgiliau: dangos empathi a pharch at eraill.	Profiadau: cyd-destunau heriol a phynciau llosg, er enghraifft, materion cyfoes sydd yn y newyddion.

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Disgrifiad dysgu ar gyfer siarad	Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu defnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus ac amrywiol.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu.	Rwy'n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyfoethogi fy mynegiant.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig a chywair priodol i gyfoethogi fy mynegiant mewn ystod o gyd-destunau.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				

	Cymhwysedd rhyngweithredol (transactional competence): y gallu i wneud pethau trwy'r iaith. Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: amgylchedd iaith cyfoethog. Gwybodaeth: ystod gynyddol o eirfa. Skills: defnyddio geirfa maen nhw newydd ei dysgu.	Profiadau: cyfleoedd I ganfod geirfa newydd, amrwyliol a llawn dychymyg. Gwybodaeth: ystod gynyddol o irfa Skills: defnyddio geirfa mewn ymadroddion a phatrymau brawddeg.	Profiadau: modelu iaith idiomatig a chywair priodol. Gwybodaeth: beth yw cywair; bod geiriau ac ymadroddion gwahanol yn cael eu defnyddio mewn gwahanol ieithoedd (nid yw pethau bob amser yn cyfieithu'n llythrennol) Sgiliau: defnyddio'r iaith idiomatig a'r cywair priodol fel y'u modelwyd iddynt, er enghraifft, Faint o'r gloch? yn hytrach na 'Beth yw'r amser?'; defnyddio 'chi' gyda phobl hŷn/ i ddangos parch a 'ti' gyda ffrind.	Profiadau: cyfleoedd i siarad Cymraeg mewn cyd-destunau gwahanol lle bydd angen cywair gwahanol. Gwybodaeth: cywair priodol; ystod gynyddol o iaith idiomatig. Sgiliau: defnyddio iaith idiomatig; defnyddio cywair priodol.	Profiadau: cyfleoedd i siarad Cymraeg mewn cyd-destunau gwahanol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried y math o iaith a'r cywair priodol.. Gwybodaeth: deall sut mae iaith idiomatig a chywair priodol yn gwella mynegiant. Sgiliau: y gallu i benderfynu beth sy'n addas ar gyfer y cyd-destun..

Darllen

Mae disgrifiadau dysgu ar gyfer y datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch' yn cyfeirio at gynnydd mewn sgiliau darllen.

Mae llai o ddisgrifiadau dysgu ar gyfer darllen ar gyfer Cam Cynnydd 1 gan ei bod yn bwysig bod dysgwyr yn datblygu eu sgiliau gwrando a siarad cyn iddyn nhw symud ymlaen i ddarllen. Fodd bynnag, gellir cefnogi ac annog hyd yn oed y dysgwyr ieuengaf i edrych ar ddeunyddiau darllen Cymraeg yn ystod eu profiadau dysgu bob dydd.

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer darllen	Rwy'n gallu gwrando ar eraill [yn darllen] gyda sylw cynyddol.		Rwy'n gallu darllen gydag empathi, gan gydnabod safbwyntiau amrywiol pobl eraill.	Rwy'n gallu darllen gydag empathi, a myfyrio ar bersbectif pobl eraill er mwyn llywio fy ffordd i o feddwl.	Rwy'n gallu darllen gydag empathi, gan barchu safbwyntiau gwahanol bobl ac rwy'n gallu gwerthuso'r safbwyntiau hyn yn feirniadol er mwyn cyrraedd fy nghasgliadau ystyriol fy hun.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: gwrando ar eraill yn darllen ar goedd. Sgiliau: ar gyfer dysgwyr iau, bydd y gallu i wrandi gyda sylw cynyddol yn dibynnu ar eu cam datblygu.		Profiadau: testunau sy'n cynnig cyfle i ddangos empathi a sy'n cynnig safbwyntiau gwahanol. Sgiliau: bydd gallu dysgwyr i ddangos	Profiadau: testunau sy'n ddigon cyfoethog a sylweddol i ennyn diddordeb dysgwyr yn ddeallusol ac yn emosiynol, i'w hannog i gael eu hysbrydoli eu hysgogi a'u newid.	Sgiliau: gall gwerthuso'n feirniadol yr hyn maen nhw'n ei ddarllen gynnwys arddull yn ogystal â dibynadwyedd.

		empathi yn dibynnu ar eu cam datblygu.		

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer darllen	Rwy'n dechrau adnabod a darllen geiriau aml eu defnydd rwy'n dod ar eu traws. Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall geiriau	Rwy'n gallu defnyddio cyfatebiaethau graffem-ffonem wrth ddarllen. Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhuglder cynyddol. Rwy'n gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr. Rwy'n gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth o wahanol ddeunyddiau rwyf yn eu darllen.	Rwy'n gallu darllen testunau gan ddewis strategaethau sy'n rhoi'r mwyaf o gymorth i mi eu deall. Rwy'n gallu cymharu gwahanol bethau rwy'n eu ddarllen. .	Rwy'n gallu darllen ystod o destunau gan ddewis strategaethau i'w deall nhw ac i wella fy mynegiant a chyfathrebu. Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a rhagfynegi'r ystyr cyffredinol ar draws ystod eang o destunau.	Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i grynhoi, syntheseiddio a dadansoddi gwybodaeth i fagu dealltwriaeth ehangach o destunau a chyfoethogi fy mynegiant a chyfathrebu.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: Amgylchedd iaith cyfoethog lle mae darllen	Profiadau: Deunyddiau darllen, gan gynnwys testunau dilys nad ydynt wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer tasg yn	Profiadau: Bydd dysgwyr angen cyfleoedd i	Profiadau: darllen yn gyson, yn cynnwys amrediad o	Sgiliau: sgiliau darllen crynhoi, syntheseiddio a dadansoddi gwybodaeth.

	geiriau cyffredin yn rhan o'r drefn dyddiol, er enghraifft, bydd ymarferwyr yn helpu dysgwyr i sylwi ar a darllen labeli o gwmpas yr amgylchedd dysgu.	y dosbarth, fel llyfrau darllen Cymraeg neu gwefannau lle gall dysgwyr chwilio am wybodaeth i'w defnyddio ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau. Gallai hyn gynnwys canfon gwybodaeth i'w helpu siarad neu ysgrifennu am bwnc neu gwblhau her i ganfod gwybodaeth. Gwybodaeth: Gallai strategaethau maen nhw'n defnyddio wrth ddarllen mewn ieithoedd eraill fod yn ddefnyddiol. Lle mae ieithoedd eraill y dysgwyr yn whanaol iawn i'r Gymraeg, bydd angen cyflwyno strategaethau newydd. Sgiliau: Bydd angen cefnoaeth ar ddysgwyr sydd wedi dysgu darllen mewn iaith arall er mwyn trosglwyddo'r cysyniadau i gefnodi darllen yn Gymraeg.	ddarllen yn eang yn Gymraeg. Gall hyn gynnwys dewis darllen llyfrau maen nhw'n eu mwynhau drosodd a thro; darllen llyfrau a chylchgronau heriol lle nad yw pob gair yn gyfarwydd iddyn nhw; a darllen storïau yn Gymraeg sy eisoed yn gyfarwydd iddyn nhw mewn iaith arall. Gwybodaeth: Geirfa sy'n gysylltiedig â thestunau megis dyddiadur,	destunau dilys. Sgiliau: defnyddio strategaethau o ieithoedd eraill maen nhw'n darllen gallu ynddyn nhw, a dysgu strategaethau newydd lle'n briodol, i adnabod ystyr ac i rhagweld, er enghraifft beth gallai ddigwydd nes ymlaen mewn stori.	

		Bydd y pethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y Gymraeg a'u hieithoedd eraill yn effeithio ar y broses hon.	ffeithiol, pennawd ayb. Sgiliau: cymhari gwahanol bethau mane nhw'n darllen: gallai hyn fod ynghylch cynnwys (ffeithiol, ffuglen ayb); math o destun (cylchgrawn, nofel, cerdd); neu fynegi barn.		

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer darllen		Rwy'n gallu dehongli ystyr o destun a delweddau.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad er mwyn deall testun.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad er mwyn deall testunau mwy cymhleth, a gallu ystyried dibynadwyedd yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i fagu dealltwriaeth o destunau cymhleth ac rwy'n gallu gwerthuso dibynadwyedd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				

Profiadau, gwybodaeth a sgiliau		Sgiliau: defnyddio'r hyn maen nhw'n deall mewn testun, yn ogystal â delweddau, er mwyn dehongli ystyr.	Profiadau: cyfleoedd I ddarllen amrywiaeth o destunau gwahanol. Sgiliau: deall gwybodaeth neu barn sydd ddim wedi ei mynegi'n echblyg; cysylltu gwahanol darnau o wybodaeth echblyg a dod i gasgliad.	Profiadau: cyfleoedd i ddarllen testunau mwy cymhleth, yn cynnwys deunyddiau darllen dilys. Sgiliau: y gallu i ystyried a deall pam mae testun wedi cael ei ysgrifennu, pryd, gan bwy ac ym mha gyd-destun, a sut gallai hynny effeithio ar ei ddibynadwyedd.	Sgiliau: y gallu i ystyried yn wrthrychol yr effaith mae'r deunydd darllen yn cael arnyn nhw a'r effaith gallai gael ar bobl eraill.

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer darllen		Rwy'n gallu ddarllen ar goedd gyda mynegiant, gan roi sylw i atalnodi.	Rwy'n gallu darllen gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n effeithio ar ystyr.	Rwy'n gallu darllen i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n siapio brawddegau a thestunau cyflawn.	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o adeiladwaith geiriau, gramadeg gan gynnwys cystrawen, a threfn testunau i gefnogi fy nealltwriaeth o'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen.
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith. Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau		Profiadau: cyfleoedd i ddarllen ar goedd Gwybodaeth: atalnodi – gallai'r wybodaeth hon gael ei throsglwyddo o	Sgiliau: dylai dysgwyr cael eu cefnogi i sylwi ar atalnodi mewn testunau maen nhw'n eu darllen ac ystyried sut mae'n effeithio ystyr. Wrth iddynt	Profiadau: bydd darllen yn eang a darllen amrediad o destunau Cymraeg o safon yn cefnogi datblygiad iaith dysgwyr dros amser.	Sgiliau: wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, gallan nhw ddefnyddio eu holl adnoddau iaith i ddeall yr hyn maen nhw'n ei ddarllen.

		ieithoedd eraill mae dysgwyr yn eu darllen. Er enghraifft, mae angen annog dysgwyr i oedi ar gyfer coma a stopio ar gyfer atalnod llawn.	wneud cynnydd bydd hyn yn dod yn broses isymwybodol.	Gall tynnu sylw dysgwyr at ddefnydd o ramadeg mewn cyd-destun fod yn fwy effeithiol na gweithgareddau a gwersi gramadeg ar wahân.	

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer darllen	Rwy'n gallu arbrofi gyda geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa ac ynganiad trwy ddarllen, ac rwy'n gallu defnyddio'r geiriau newydd hyn.	Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa ac ynganiad trwy ddarllen, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau.	Rwy'n gallu darllen er mwyn datblygu fy ngeirfa, ynganiad a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth i mi gyfathrebu ar draws ystod o gyd-destunau.	Rwy'n gallu darllen er mwyn cadarnhau a datblygu fy ngeirfa a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain yn gywir wrth i mi gyfathrebu mewn ystod eang o gyd-destunau.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: cyfleoedd i ddefnyddio ac arbrofi gyda geiriau newydd.	Profiadau: cyfleoedd i ddefnyddio geiriau maen nhw'n dod ar eu draws wrth ddarllen. Gwybodaeth: deall geiriau newydd maen nhw'n dod ar eu	Profiadau: bydd amrediad ehangach o destunau yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr i feithrin eu geirfa. Bydd cyfleoedd i ddefnyddio geirfa newydd mewn cyd-	Gwybodaeth: wrth i ddysgwyr wneud cynnydd dylai testunau adlewyrchu eu hyder a chymhwysedd cynyddol mewn ystod o gyd-destunau.	Sgiliau: bydd dysgwyr yn gallu gweu geiriau a phatrymau maen nhw'n profi wrth ddarllen yn eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig mewn ffordd naturiol sy'n

		traws. Gallai'r wybodaeth hon gael ei datblygu trwy ofyn i eraill, defnyddio adnoddau fel rhestrau geiriau a geiriaduron yn ogystal â defnyddio cyd-destun a delweddau testun i helpu dealltwriaeth. Sgiliau: defnyddio geiriau a phatrymau maen nhw wedi darllen mewn cyd-destunau newydd.	destunau newydd yn helpu atgyfnerthu.		cyfoethogi eu mynegiant.

Ysgrifennu

Mae disgrifiadau dysgu ar gyfer y datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu' yn cyfeirio at gynnydd mewn sgiliau ysgrifennu.

Mae llai o ddisgrifiadau dysgu ar gyfer darllen ar gyfer Cam Cynnydd 1 gan ei bod yn bwysig bod dysgwyr yn datblygu eu sgiliau gwrando a siarad cyn iddyn nhw symud ymlaen at ysgrifennu. Fodd bynnag, gellir cefnogi ac annog hyd yn oed y dysgwyr ieuengaf wrth iddyn nhw geisio ysgrifennu yn Gymraeg yn ystod eu profiadau dysgu bob dydd.

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ysgrifennu			Rwy'n gallu defnyddio ac addasu iaith gyfarwydd, gan amrywio geirfa a naws yn ôl y gynulleidfa.	Rwy'n gallu dewis ac addasu'r iaith briodol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion, gan gyfleu ystyr yn effeithiol i'r gynulleidfa.	Rwy'n gallu argyhoeddi wrth gyfleu ystyr mewn ystod o gyd-destunau gan ennyn diddordeb llawn y gynulleidfa.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau			Profiadau: ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Gwybodaeth: defnyddio geiriau a phatrymau i greu naws addas ar gyfer cynulleidfa benodol.	Profiadau: ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol gan gynnwys ysgrifennu at ddibenion go iawn mewn cyd-destunau dilys. Gwybdoaeth: arddulliau ysgrifennu at wahanol ddibenion	Sgiliau: cynnal arddull ysgrifennu sy'n ennyn diddordeb darllenwyr.

			Sgiliau: defnyddio ac addasu geirfa a phatrymau cyfarwydd i fynegu eu hunain yn ysgrifenedig.	ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Sgiliau: dewis a chynnal arddul ysgrifennu i gyfleu ystyr mewn modd ystyrlon.	

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ysgrifennu		Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol amrywiol. Rwy'n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol.	Rwy'n gallu addasu a thrin iaith a gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch geirfa a gramadeg i ddyfnhau fy sgiliau cyfathrebu.
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau		Gwybodaeth: geirfa amrywiol Sgiliau: trosglwyddo'r Gymraeg maen	Gwybodaeth: geirfa, cystrawen ac iaith idiomatig - defnyddio ymadroddion a phatrymau naturiol yn hytrach na chyfieithu o iaith gartref y dysgwr.	Gwybodaeth: geirfa, iaith idiomatig a chystrawen Cymraeg. Sgiliau: ystyried sut mae dewisiadau iaith yn	Gwybodaeth: gramadeg y Gymraeg Sgiliau: cynhwyso gwybodaeth

		nhw'n defnyddio ar lafar i ysgrifennu.	Bydd defnyddio tafodiaith rhanbarthol addas ac osgoi geirfa neu ymadroddion hen ffasiwn yn helpu dysgwyr sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth. Sgiliau: trin iaith – amnewid geiriau ac ymadroddion i greu eu gwaith eu hunain.	effeithio ar eu gwaith ysgrifenedig.	ramadegol wrth ysgrifennu.

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ysgrifennu		Rwy'n gallu edrych dros fy ngwaith ac rwy'n dechrau defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau cyfarwydd i wella fy ngwaith ysgrifennu.	Rwy'n gallu myfyrio ar safon fy mynegiant a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder yn fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig. Rwy'n gallu egluro yn fy newis iaith ble a pham rwyf wedi gwneud unrhyw newidiadau neu gywiriadau.	Rwy'n gallu myfyrio ar fy nefnydd o strategaethau i wella ansawdd, cywirdeb ac effaith fy nghyfathrebu gweledol a chyfathrebu ysgrifenedig.	Rwy'n gallu myfyrio'n feirniadol ar fy nefnydd o iaith ac yn gallu ystyried yn wrthrychol effaith fy nghyfathrebu gweledol, a chyfathrebu ysgrifenedig. [Cyfathrebu gweledol: cyfleu syniadau a gwybodaeth mewn ffurfiau a welir, er enghraifft arwyddion, animeiddio, darlunio a dyluniad graffeg.]
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith. Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau		Profiadau: cyfleoedd i ailymweld, adolygu a gwella eu gwaith ysgrifenedig. Bydd dysgwyr angen cefnogaeth i gymhwyso'r hyn maen nhw'n dysgu wrth adolygu eu gwaith mewn gwaith ysgrifenedig dilynol.	Sgiliau: y gallu i esbonio pam maen nhw wedi gwneud newidiadau – dros amser bydd dysgwr yn dibynnu llai ar ei iaith gartref/ scaffald i wneud hyn yn Gymraeg.	Sgiliau: bydd dysgwyr fwyfwy yn dewis y strategaethau i fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a'i wella (yn hytrach na bod hyn yn weithgaredd sy'n cael ei arwain gan yr athro)	Sgiliau: bydd dysgwyr fwyfwy yn myfyrio'n annibynnol ar eu defnydd iaith er mwyn gwella ac ailddrafftio gwaith cyn ei gwblhau.

		Gwybodaeth: sut olwg sy ar waith da o ran yr iaith Gymraeg maen nhw'n defnyddio a/neu o ran tasgau/gweithgareddau penodol; strategaethau ac arfau i adolygu a gwella eu sgiliau ysgrifennu h.y. asesu ar gyfer dysgu (AfL) Sgiliau: y gallu i adnabod eu cryfderau a meysydd i'w gwella.			

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ysgrifennu		Rwy'n gallu newid y modd rwy'n cyfathrebu, yn ôl sut rwy'n Cyfathrebu a chyda phwy. Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau a chyfnewid syniadau a gwybodaeth	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan ymofyn eglurhad, strwythuro dadleuon, crynhoi ac esbonio'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan grynhoi a gwerthuso'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld, strwythuro dadleuon a herio gyda hyder a sensitifrwydd yr hyn y mae eraill yn ei ddweud.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				

	Cymhwysedd rhyngweithredol (transactional competence): y gallu i wneud pethau trwy'r iaith. Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau		Profiadau: cyfleoedd dilys i fynegi eu hunain yn ysgrifenedig. Gwybodaeth: geiriau a phatrymau i ofyn ac ateb cwestiynau. Sut mae iaith yn newid weddu'r cyd-destun. Sgiliau: newid sut maen nhw'n ysgrifennu, er enghraifft, cyfathrebu gyda ffrindiau arlein neu ysgrifennu yn y dosbarth.	Profiadau: cyfleoedd i ymateb yn ysgrifenedig i safbwyntiau pobl eraill.	Gwybodaeth: sut i strwythuro dadleuon, sut i grynhoi a sut i esbonio yn ysgrifenedig.	Sgiliau: uwch sgiliau ysgrifennu.

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ysgrifennu		Rwy'n gallu sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir. Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am sain a phatrwm llythrennau i gefnogi fy sillafu.	Rwy'n gallu rhoi ymgais ar sillafu geiriau anoddach mewn ffordd resymol gan ddefnyddio ystod o strategaethau.		
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau		Profiadau: Bydd dygwyr angen cefnogaeth i sylwi ar batrymau sillafu Cymraeg. Gwybodaeth: synau llythrennau Cymraeg a phatrymau, er enghraifft, cae, cael, bae, gadael Sgiliau: cymhwyso beth maen nhw'n gwybod am synau Cymraeg a phatrymau wrth ysgrifennu.	Profiadau: Bydd dysgwyr angen cyfleoedd cyson i ddefnyddio strategaethau gwahanol. Gwybodaeth: strategaethau sillafu – efallai bydd dysgwyr yn gallu defnyddio strategaethau amen nhw'n eu defnyddio ar gyfer eu hieithoedd eraill yn dibynnu ar y tebygrwydd/gwahaniaethau rhwng yr ieithoedd hynny â'r Gymraeg. Sgiliau: mae sillafu mewn ffordd resymol yn golygu, hyd yn oed os ydyn nhw'n camsillafu gair, bydd darllenwr dal yn gallu adnabod y gair. Gallai'r sillafu gael ei ddylanwadu gan gonfensiynau sillafu ieithoedd eraill y dysgwr ond, wrth i'r dysgwr ddarllen ac ysgrifennu mwy yn y Gymraeg, bydd y sillafu'n cydymffurfio yn fwyfwy gyda chonfensiynau sillafu'r Gymraeg.		

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ysgrifennu	Rwy'n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion. Rwy'n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo.	Rwy'n gallu siarad yn fy newis iaith er mwyn cynllunio ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.	Rwy'n gallu cynllunio ac ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith ysgrifennu i ddilyn yn rhesymegol.		
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: gall ysgrifennu mewn gŵp ddatblygu sgiliau a meithrin hyder dysgwyr cyn iddynt ddechrau ysgrifennu'n annibynnol. Gall defnyddio technoleg digidol i gyfathrebu trwy ddefbnyddio cyfuniad o destun, delwedd, sain a fideo helpu cefnogi dysgwyr i recordio'r hyn maen nhw'n gallu ei ddweud yn Gymraeg.	Profiadau: cyfleoedd i siarad cyn ysgrifennu. Dros amser bydd dysgwyr yn dibynnu llai ar sgaffald a'u ieuithoedd gartref wrth drafod cynlluniau ar gyfer ysgrifennu. Sgiliau: cynllunio beth i ysgrifennu.	Profiadau: cyfleoedd i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd go iawn ac ar gyfer dibenion go iawn mewn cyd-destunau dilys. Sgiliau: trefnu ysgrifennu		

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ysgrifennu	Rwy'n dechrau mynegi fy nheimladau	Rwy'n gallu rhannu syniadau a mynegi barn a theimladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol. Rwy'n gallu disgrifio digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa.	Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, teimladau a barn, gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu rhannu fy meddyliau, fy nheimladau a fy safbwyntiau ag eraill, gan ddefnyddio ystod o dechnegau i greu gwahanol effeithiau, gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu cyfleu fy meddyliau, fy nheimladau a fy safbwyntiau mewn cyd-destunau heriol a dadleuol, gan ddangos empathi a pharch.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: cyfleoedd I fynegi sut maen nhw'n teimlo go iawn. Gwybodaeth: geirfa a phatrymau I fynegu eu teimladau. Sgiliau: ar gyfer dysgwyr iau bydd y gallu I adnabod a mynegu eu teimladau ar lafar yn dibynnu ar gam datblgu'r dysgwr.	Gwybodaeth: geirfa a phatrymau i rannu syniadau, mynegi barnau a theimladau ac i ddisgrifio digwyddiadau.	Profiadau: bydd ystod o brofiadau yn cyfrannu at ddatblygu empathi ond bydd anianawd a cham datblygu'r dysgwr hefyd yn effeithio ar gynnydd. Sgiliau: mynegi meddyliau, teimladau a barnau a dangos empathi a pharch wrth ysgrifennu.	Gwybodaeth: technegau ar gyfer creu effeithiau gwahanol yn eu hysgrifennu.	Profiadau: cyfleoedd dilys i ysgrifennu mewn cyd-destunau heriol ac am bynciau llosg.

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ysgrifennu	Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu defnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus ac amrywiol.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu.	Rwy'n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyfoethogi fy mynegiant.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig soffistigedig a chywair priodol mewn ystod o gyd-destunau.
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith. Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. Cymhwysedd rhyngweithredol (transactional competence): y gallu i wneud pethau trwy'r iaith.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: dylai dysgwyr iau gael cyfleoedd i ddewis defnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau gwneud marciau. Dylen nhw gael eu hannog a'u cefnogi pan maen nhw'n dewis ysgrifennu geiriau Cymraeg.	Profiadau: cyfleoedd i ddefnyddio geiriau cyfarwydd a phatrymau yn ogystal ag ymestyn yr ystod o iaith maen nhw'n gwybod ac yn ei defnyddio. Gwybodaeth: mae geirfa ddychmygus ac amrywiol yn golygu fod dysgwyr ddim yn dibynnu ar yr un geiriau a phatrymau o hyd ond yn ceisio cyfoethogi eu mynegiant o hyd.	Gwybodaeth: geiriau a phatrymau naturiol, lleol a chyfoes. Sgiliau: defnyddio iaith a chywair addas sydd wedi'u cyflwyno a'u modelu iddyn nhw, er enghraifft, ti/chi	Gwybodaeth: cywair, er enghraifft, ti/chi; cofion cynnes/ yr eiddoch yn gywir Sgiliau: y gallu i ddewis iaith a chywair addas i weddu cyd-destun yr ysgrifennu.	Profiadau: cyfleoedd dilys i ysgrifennu yn cynnwys ysgrifennu ffurfiol ac anffurfiol ac ysgrifennu estynedig.

Llenyddiaeth a chreadigrwydd

Mae'r disgrifiadau dysgu ar gyfer y datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd' yn cyfeirio at ddeall a creu llenyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys sgiliau derbyn iaith a sgiliau mynegi iaith.

Dyma ddiffiniad Cwricwlwm i Gymru ar gyfer llenyddiaeth:
"deunyddiau llafar, ysgrifenedig a gweledol sy'n deillio o'r ddychymyg creadigol, megis barddoniaeth, drama, gwaith ffuglen a ffeithiol o wahanol gyfnodau a diwylliannau. Dylai'r gwaith fod yn ddigon cyfoethog a sylweddol i ennyn diddordeb dysgwyr yn ddeallusol ac yn emosiynol, i'w hannog i gael eu hysbrydoli, eu hysgogi a'u newid, ac i ymestyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd am lenyddiaeth."

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer llenyddiaeth a chreadigrwydd	Rwyf wedi profi llenyddiaeth. Rwy'n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd. Rwy'n dechrau ymateb i lenyddiaeth rwy'n ei chlywed a'i gweld.	Rwyf wedi profi ystod o lenyddiaeth. Rwy'n gallu gwrando ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, a'u cofio. Rwy'n gallu ailadrodd straeon. Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i ymateb i lenyddiaeth a'i haddasu.	Rwy'n gallu gwrando ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, gan eu cofio a'u haddasu mewn ffordd greadigol. Rwy'n gallu ailadrodd straeon mewn ffordd greadigol. Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i ymateb i lenyddiaeth. Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan fynegi	Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am arddulliau ysgrifennu a nodweddion gwahanol lenyddiaeth er mwyn creu fy ngwaith fy hun.	Rwy'n gallu archwilio amrywiaeth eang o lenyddiaeth, gan arbrofi gyda dewisiadau iaith a thechnegau ar gyfer fy mhwrpas creadigol fy hun.

			barn a dangos fy nealltwriaeth yn fy newis iaith.		
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. Cymhwysedd symbolaidd: y gallu i werthfawrogi'r iaith darged a datblygu hunaniaeth fel defnyddiwr yr iaith. Cymhwysedd trawsieithol: y gallu i ddefnyddio amrediad o adnoddau ieithyddol mewn cymdeithas amlieithog.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: cyfleoedd i edrych ar lenyddiaeth, sy'n cynnwys llyfrau llun a llyfrau dwyieithog. Cyfleoedd i wrando ar eraill yn darllen iddyn nhw yn Gymraeg. Cyfleodd i ymuno gyda chaneuon, rhigymau, storïau a cherddi. Efallai bydd dysgwyr iau yn mwynhau ymuno gyda hwiangerddi a storïau maen nhw eisoes yn gwybod mewn iaith arall. Gwybodaeth: bydd iaith sy'n cael ei hailadrodd yn aml mewn llenyddiaeth yn dod yn fwyfwy	Profiadau: cyfleoedd i brofi llyfrau, ffilmiau a cherddi dilys sy'n cael eu dewis gan y dysgwr neu ar gyfer y dysgwr. Sgiliau: ailddweud storïau yn defnyddio geiriau a phatrymau maen nhw'n gwybod yn ogystal â geiriau a phatrymau maen nhw'n dod ar eu traws wrth wrando, gwylio a darllen.	Sgiliau: ailddweud storïau yn greadigol trwy or-ddweud a chyfoethogi gan ailadrodd neu ddefnyddio hiwmor. Sgiliau: trosglwyddo gwybodaeth am lenyddiaeth o ieithoedd eraill, er enghraifft, cyffelybiaethau. Gwybodaeth: iaith addas ar gyfer trafod llenyddiaeth.	Profiadau: cyfleoedd i ysgrifennu'n greadigol ar ôl darllen neu glywed cerddi, storïau ayb. Sgiliau: addasu beth maen nhw wedi 'i ddarllen neu glywed i greu llenyddiaeth wreiddiol eu hunain, er enghraifft cerdd neu stori.	Gwybodaeth: technegau llenyddol. Sgiliau: datblygu a chymhwyso arddull bersonol wrth ysgrifennu'n greadigol.

	gyfarwydd, er enghraifft, un tro.				

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer llenyddiaeth a chreadigrwydd	Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg er mwyn creu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gydag iaith i greu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau creadigol er mwyn creu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu arbrofi gyda a chreu fy llenyddiaeth fy hun.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: cyfleoedd i arbrofi gyda geiriau. Gall dysgwyr cael eu cefnogi i sylwi ar odl, geiriau sy'n dechrau gyda'r un sain ayb.	Profiadau: cyfleoedd i ddefnyddio eu dychymyg i greu. Gall hyn gynnwys arddulliau ysgrifennu amrywiol, er enghraifft, disgrifio anghenfil neu berson o fyd arall, rysáit ych a fi, stribed cartŵn neu ddyddiadur. Sgiliau: ysgrifennu creadigol; perfformio.	Profiadau: cyfleoedd i Ddatblygu gwaith creadigol. Sgiliau: wrth i ddysgwyr wneud cynnydd byddan nhw'n dibynnu'n llai ar sgaffald wrth Ddatblygu gwaith creadigol.	Gwybodaeth: ffurfiau llenyddol, er enghraifft, mathau o gerddi, stori fer, ffilm ayb. Technegau megis trosiad, hiwmor ayb.	Sgiliau: dod â holl adnoddau iaith dysgwr ynghyd i greu llenyddiaeth eu hunain.

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer llenyddiaeth a chreadigrwydd	Rwy'n dechrau ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed a'i weld.	Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld gan fynegi barn syml yn fy newis iaith. Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn i mi ddeall yn well.	Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau er mwyn dangos fy nealltwriaeth. Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol fathau o lenyddiaeth a defnyddio iaith briodol i siarad amdanyn nhw.	Rwy'n gallu ystyried plot, cymeriad, thema a chyd-destun y llenyddiaeth rwy'n ei phrofi, gan gefnogi fy syniadau a'm barn gyda thystiolaeth o'r testun. Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld.	Rwy'n gallu archwilio, dadansoddi a chymharu syniadau allweddol gan ddefnyddio terminoleg briodol, a chefnogi fy marn gyda manylion priodol o'r testun.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: cyfleoedd i ymateb i storïau, caneuon, cerddi ayb., er enghraifft, trwy dynnu lluniau, ymuno ac actio'r hyn maen nhw wedi clywed neu weld.	Gwybodaeth: geirfa a phatrymau i ofyn a c ateb cwestiynau ac i fynegu barnau go iawn am y llenyddiaeth maen nhw'n ei gweld, ei darllen ac yn ei chlywed.	Gwybodaeth: nodweddion gwahanol fathau o lenyddiaeth, er enghraifft, maen nhw'n gallu adnabod bod darn o ysgrifennu yn gerdd, neu mewn arddull adroddiad papur newydd neu ar ffurf dyddiadur.	Profiadau: cyfleoedd i ddadansoddi llenyddiaeth, er enghraifft, er mwyn ysgrifennu adolygiad lltyfr neu ffilm neu er mwyn gwerthfawrogi barddoniaeth. Sgiliau: dadansoddi agweddau ar lenyddiaeth. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau sydd ganddyn	Gwybodaeth: terminoleg llenyddiaeth, er enghraifft, saethiad agos, cymhariaeth, cyffelybiaeth.

				o astudio llenyddiaeth yn eu hieithoedd eraill. Defnyddio tystiolaeth o lenyddiaeth i gefnogi barnau. Gwneud cysylltiadau gyda phethau maen nhw wedi gweld neu ddarllen o'r blaen.	

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer llenyddiaeth a chreadigrwydd			Rwy'n dechrau dangos empathi gyda chymeriadau mewn llenyddiaeth.	Rwy'n gallu dangos empathi wrth ymateb i lenyddiaeth a chydnabod y gall fod gan bobl eraill farn wahanol i mi.	Rwy'n gallu gwerthfawrogi llenyddiaeth gan ddangos empathi ynghyd â dealltwriaeth y gall llenyddiaeth gael ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd.
Cymwyseddau	Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau			Profiadau: cyfleoedd i ddarllen ffuglen fydd yn helpu datblygu empathi dysgwyr.	Sgiliau: mynegi empathi.	Sgiliau: gwerthfawrogi llenyddiaeth (deall nad oes 'ateb cywir' bob amser).

Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.

Mae'r disgrifiadau dysgu ar gyfer y datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae ieithodd yn ein cysylltu â'n gilydd' yn cyfeirio at ddeall agweddau ar hunaniaeth, diwylliant a datblygu sgiliau Cymraeg mewn cyd-destun dwyieithog, amlieithog a lluosieithog. Bydd y rhain yn amlwg ar draws y dysgu ac addysgu ond fe'u dygir ynghyd gan y datganiad hwn.

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd yn ein cysylltu.	Rwy'n dechrau bod yn ymwybodol o gysylltiad rhwng iaith (ieithoedd) a diwylliant, ac rwy'n datblygu ymdeimlad o berthyn.	Rwy'n gallu adnabod bod cysylltiad rhwng ieithoedd, diwylliant a'r ymdeimlad sydd gen i o'm hunaniaeth Gymreig.	Rwy'n gallu deall bod cysylltiadau rhwng iaith, diwylliant a hunaniaeth a bod rhain yn amrywio o fewn Cymru ac o amgylch y byd.	Rwy'n gallu deall sut y gall ieithoedd feithrin ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol a byd-eang. Rwy'n gallu archwilio a dadansoddi sut mae ieithoedd yn effeithio ar hunaniaeth a diwylliant, a deall bod eu dysgu yn cynnig cyfleodd ehangach yng Nghymru ac mewn cyd-destunau rhyngwladol.	Rwy'n gallu dangos agwedd agored tuag at ddysgu am wahanol ieithoedd a gwahanol ddiwylliannau Cymru a'r byd. Trwy ddysgu am ieithoedd, rwy'n gallu mynegi sut mae'r cysylltiad rhwng ieithoedd a diwylliant yn fy mharatoi i fod yn ddinesydd i Gymru a'r byd.
Cymwyseddau	Cymhwysedd symbolaidd: y gallu i werthfawrogi'r iaith darged a datblygu hunaniaeth fel defnyddiwr yr iaith.				
Profiadau, gwybodaeth a sgiliau	Profiadau: gall ymwneud yn barhaol â'r Gymraeg a diwylliant Cymru	Gwybodaeth: deall eu hymdeimlad personol o hunaniaeth.	Profiadau: archwilio beth maen golygu i fod yn Gymro neu'n Gymraes a beth	Profiadau: cyfleoedd i archwilio diwylliant Cymru, hunaniaeth a'r iaith ochr yn ochr	Gwybodaeth: eu rhan nhw yn cefnogi cymdeithas gydlynol.

	helpu dysgwyr ddatblygu'r ymwybyddiaeth hon.	Bydd ymdeimlad pawb o hunaniaeth Gymreig yn wahanol ond mae gan bawb sy'n cael eu haddysgu yng Nghymru berthynas gyda'r Gymraeg a diwylliant Cymru, waeth beth fo'u man geni neu ieithoedd cartref eu teuluoedd.	mae'r iaith Gymraeg yn golygu i bobl wahanol mewn lleoedd gwahanol ar adegau gwahanol.	â diwylliannau, hunaniaethau ac ieithoedd eraill. Gwybodaeth: deall beth mae hunaniaeth a pherthyn yn eu golygu iddyn nhw ac i bobl eraill.	Sgiliau: bod yn agored i ddysgu ieithoedd a dysgu am ddiwylliannau eraill. Derbyn gwahaniaeth.

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd yn ein cysylltu.	Rwy'n dechrau deall bod gwahanol ieithoedd yn fy amgylchedd.	Rwy'n gallu deall bod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd.	Rwy'n gallu cyfathrebu mewn ystod cynyddol o ieithoedd.	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o sut mae ieithoedd yn gweithio i gefnogi fy nysgu pellach mewn ieithoedd.	Rwy'n gallu cyfathrebu, rhyngweithio a chyfryngu mewn sawl iaith, ac yn ystyried fy hun yn amlieithog.
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith. Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. Cymhwysedd trawsieithol: y gallu i ddefnyddio amrediad o adnoddau ieithyddol mewn cymdeithas amlieithog.				
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd yn ein cysylltu.	Profiadau: gall dysgwyr gael eu cefnogi i sylwi ar ieithoedd eraill yn eu hamgylchedd dysgu ac yn y gymuned ehangach.	Profiadau: profiad o'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill.	Profiadau: cyfleoedd dilys i ddefnyddio'r holl ieithoedd mae'n nhw'n gwybod a'r holl ieithoedd maen nhw'n eu dysgu.	Sgiliau: trosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o ddysgu ieithoedd eraill i gefnogi cynnydd yn y Gymraeg.	Profiadau: cyfleoedd go iawn i ryngweithio a chyfryngu mewn cyd-destunau dilys. Gwybodaeth: deall bod hyfedredd pobl

			Gwybodaeth: gwneud cynnydd yn Gymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith arall yn yr ysgol.		ddwyieithog neu amlieithog yn amrywio ar draws eu hieithoedd. Sgiliau: rhyngweithio gydag eraill yn Gymraeg a chyfryngu yn Gymraeg a rhwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill. [Cyfryngu: cyfathrebu ystyr o un berson i berson arall o fewn iaith (aralleirio, crynhoi) neu o un iaith i iaith arall (cyfieithu, dehongli). Mae'r dysgwr yn cynorthwyo eraill i gyfathrebu gyda'i gilydd trwy rannu , esbonio neu gyfieithu gwybodaeth neu syniadau.]

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd yn ein cysylltu.	Rwy'n dechrau siarad â'm cyfoedion yn iaith y lleoliad/ysgol.	Rwy'n dechrau deall bod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein hieithoedd.	Rwy'n gallu adnabod a thrafod cysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion	Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am gysylltiadau,	Rwy'n gallu cymhwyso'r hyn rwy'n ei wybod am gysylltiadau,

			gwahanol rhwng yr ieithoedd rwy'n eu siarad a'r rhai rwy'n eu dysgu. Rwy'n gallu deall sut a pham mae ieithoedd wedi esblygu, ac yn parhau i esblygu.	nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng ieithoedd i gefnogi fy sgiliau dysgu ieithoedd. Trwy archwilio proses esblygiad iaith ac etymoleg, rwy'n gallu gwella fy nealltwriaeth o adeiladwaith iaith.	nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng ieithoedd i wella fy nghyfathrebu. Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am esblygiad iaith ac etymoleg i ddyfnhau fy nealltwriaeth o adeiladwaith iaith.
Cymwyseddau	Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith. Cymhwysedd trawsieithol: y gallu i ddefnyddio amrediad o adnoddau ieithyddol mewn cymdeithas amlieithog.				
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd yn ein cysylltu.	Profiadau: cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o drefn ddyddiol yr ysgol neu leoliad.	Profiadau: gall dysgwyr gael eu cefnogi i sylwi ar debygrwydd neu wahaniaethau rhwng ieithoedd, er enghraifft, square/sgwar; ffôn/phone; tree/tri; key/ci ayb.	Gwybodaeth: cysylltiadau rhwng ieithoedd, er enghraifft, brawd/ brother/ Bruder; yn ogysal â geiriau sy'n swnio neu'n edrych yn debyg mewn dwy iaith ond sydd ag ystyr gwahanol, er enghraifft bore, brain, barn, call, camp, dim, man, pen, etc.	Profiadau: cyfleoedd i archwilio esblygiad iaith ac etymoleg. Gwybodaeth: cysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol.	Profiadau: cyfleoedd i gymhwyso gwybodaeth o gysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol. Sgiliau: defnyddio Gwybodaeth am ieithoedd i ddeall geiriau newydd.

			gwybodaeth: etymoleg, er enghraifft, o eiriau *Lladin: caws (cāseus), draig (dracō, meddyg (medicus)* Iaith yn esblygu (y ffordd mae iaith wedi newid ac yn dal i newid dros amser), y ffordd datblygodd y Gymraeg o'r iaith a siaradodd y Brython, pobl hynafol Prydain; arwyddocâd cyhoeddi'r Beibl yn Gymraeg yn 1587 o ran diogelu iaith, diwylliant a traddodiadau Cymru; *datblygu termau wrth i dechnoleg a chymdeithas newid, er enghraifft, rhyngrwyd, hunanynysu, cynaliadwy, ailgylchu ayb.*		

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd yn ein cysylltu.			Rwy'n gallu adnabod a deall gwahanol acenion a thafodieithoedd.	Rwy'n gallu addasu a bod yn sensitif i amrywiaeth o fewn ieithoedd a deall bod amrywiaeth yn digwydd o fewn gwahanol grwpiau cymdeithasol, rhanbarthol ac ieithyddol.	Mae gen i agwedd gadarnhaol tuag at wahanol acenion a thafodieithoedd ac rwy'n gwerthfawrogi amrywiaeth iaith.
Cymwyseddau	Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol. Cymhwysedd Rhyngweithiol (interactional competence): y gallu i gynnal cydberthnasau a rhyngweithio'n gymdeithasol yn yr iaith darged.				
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd yn ein cysylltu.		Profiadau: bydd dysgwyr yn clywed ac yn defnyddio patrymau sy'n cael eu modelu a'u haddysgu iddyn nhw – dylai'r rhain adlewyrchu tafodieithoedd ac acenion lleol, er enghraifft, taid/ tad-cu; llefrith/llaeth ayb.	Profiadau: wrth ddarllen a gwrando mewn cyd-destunau dilys, gall dysgwyr gael eu cefnogi i sylwi ar amrywiadau rhanbarthol. Gwybodaeth: deall nad yw un amrywiad yn well/ yn fwy cywir nag amrywiad arall; parchu a deall gwahaniaeth.	Profiadau: gall profi'r Gymraeg mewn cyd-destunau dilys a thrwy adnoddau dilys helpu dysgwyr deall a defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Sgiliau: deall bod patrymau a geirfa gwahanol yn bodoli i'r rheiny mae dysgwyr yn dysgu a defnyddio yn yr ysgol.	Sgiliau: amlbwrpasedd ac hyblygrwydd mewn dysgu a defnyddio ieithoedd.

	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd yn ein cysylltu.		Rwy'n dechrau defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn un iaith a'i mynegi yn fy ngeiriau fy hun mewn iaith arall.	Rwy'n gallu derbyn gwybodaeth mewn un iaith a'i haddasu at wahanol ddibenion mewn iaith arall.	Rwy'n gallu cymhwyso fy sgiliau trawsieithu er mwyn cefnogi dysgu ieithoedd cyfarwydd ac ieithoedd newydd.	Rwy'n gallu adnabod, yn annibynnol, gyfleoedd i roi fy sgiliau *trawsieithu* ar waith er mwyn cyfoethogi'r modd rwy'n dysgu a chyfathrebu. [Arfer addysgeg yw trawsieithu sy'n golygu symud rhwng dwy iaith ar gyfer mewnbwn ac allbwn yn yr un gweithgaredd. Mae'r dysgwr yn derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yn gweithio gyda'r wybodaeth honno mewn iaith arall.]
Cymwyseddau	Cymhwysedd trawsieithol: y gallu i ddefnyddio amrediad o adnoddau ieithyddol mewn cymdeithas amlieithog.				
Disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd yn ein cysylltu.		Profiadau: gall dysgwyr gael eu cefnogi i ddefnyddio patrymau a geiriau Cymraeg cyfarwydd i siarad am bethau sy'n cael eu cyflwyno yn Saesneg, er enghraifft, ffilm maen nhw wedi'i gwylio ar y penwythnos neu rhywbeth maen	Sgiliau: defnyddio geirfa a phatrymau cyfarwydd i fynegi mewn Gymraeg naturiol syniadau neu gwybodaeth o ieithoedd eraill mae dysgwr yn gwybod/yn dysgu.	Sgiliau: defnyddio ystod o adnoddau iaith i wneud cynnydd yn eu dysgu.	Profiadau: cyfleoedd dilys i gymhwyso sgiliau trawsieithu h.y. lle mae ieithoedd yn bodoli'n naturiol ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd pobl ddwyieithog yn gwneud hyn bob dydd a bydd hyn yn helpu dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn y gwaith ac yn y gymuned.

		nhw wedi'i ddarllen. Gall dysgwyr hefyd elwa o gyfleoedd i ddefnyddio eu ieithoedd cartref wrth gynllunio gwaith a fydd yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg. Sgiliau: trawsieithu – nid yw hyn yr un peth â chyfieithu. Gallai dysgwyr gyfieithu geiriau ac ymadroddion – bydd cyfieithu mwy na hyn angen lefel uchel o hyfedredd yn y ddwy iaith.			